

05/07/2021

Annwyl Riant neu Ofalwr,

Parthed: Cyswllt achos a gadarnhawyd o COVID-19 ym mlwyddyn 7 a Bws y 632B yn Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe.

Mae gwasanaeth Profi Olrhain a Diogelu GIG Cymru yn olrhain pawb sydd wedi bod mewn cysylltiad â pherson sydd wedi cael canlyniad positif i brawf COVID-19 (Coronafeirws).

Mae eich plentyn wedi'i adnabod fel **cyswllt ag achos a gadarnhawyd o COVID-19** a bydd angen iddo bellach **hunanyysu am 10 niwrnod o ddydd Gwener 02/07/21**. Drwy nodi cysylltiadau a gofyn iddynt hunanyysu am 10 niwrnod, byddwn yn lleihau ymlediad posib COVID-19 o'r cysylltiadau hynny i'w teulu, eu ffrindiau a'r gymuned ehangach.

Mae'r cyngor ar hunanyysu yn ei **gwneud yn ofynnol i'ch plentyn aros gartref**, peidio mynd allan i wneud ymarfer corff, ymweld â siopau, teulu na ffrindiau, na mynd i fannau cyhoeddus eraill. Peidiwch â gwahodd pobl i'ch tŷ. Ceir rhagor o wybodaeth am hunanyysu yn y dolenni ar waelod y llythyr hwn.

Os yw eich plentyn yn aros yn iach, yna ni fydd angen i aelodau eraill o'ch aelwyd hunanyysu, a gallant barhau â'u gweithgareddau arferol. Os bydd eich plentyn yn dal yn iach ar ddiwedd y cyfnod hunanyysu 10 niwrnod, **gall ddychwelyd i Fryn Tawe ac i'w weithgareddau arferol eraill ar ddydd Mawrth 13eg o Orffennaf 2021**.

BWS 632B:

Oherwydd fod yr achos positif yn ddisgybl bl7 sydd hefyd yn teithio ar fws y 632B, fydd angen i ddisgyblion bl9 a bl12 a oedd yn teithio ar fws 632B ar ddydd Gwener 02/07/21 hunanyysu hefyd, gan ddychwelyd i Fryn Tawe ac i'w weithgareddau arferol eraill ar ddydd Mawrth 13eg o Orffennaf 2021.

NID OES angen i ddisgyblion bl.8, sydd yn teithio ar fws y 632B, ynysu gan nad oeddent yn teithio ar y bws ar ddydd Gwener yr 02/07/21.

Er mwyn lleihau'r risg o ledaenu COVID-19, mae pethau y gall pawb yn eich teulu eu gwneud i helpu. Mae'r rhain yn cynnwys:

- golchi'ch dwylo gyda dŵr a sebon yn aml - gwnewch hyn am o leiaf 20 eiliad
- defnyddio hylif diheintio dwylo os nad oes dŵr a sebon ar gael
- golchi'ch dwylo cyn gynted ag y byddwch yn cyrraedd adref
- gorchuddio'ch ceg a'ch trwyn â hances neu eich llawes (nid eich dwylo) pan fyddwch yn peswch neu'n tisian
- rhoi hancesi a ddefnyddiwyd yn y bin yn syth a golchi'ch dwylo wedyn
- parhau i ddilyn canllawiau'r Llywodraeth er mwyn osgoi lledaeniad y feirws



Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwrysydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600

Ebost: SwyddfaBrynTawe5@hwbcymru.net
www.bryntawe.swansea.sch.uk



**BUDDSODDWYR
MEWN POBL**

Aur



Pennaeth : Mr Simon Davies



Cadwch lygad am symptomau COVID-19 yn eich plentyn, sef:

- Peswch newydd neu barhaus
- tymheredd uchel (o 37.8° neu'n uwch)
- Colli synnwyr arogleuo neu flasau neu brofi newid iddynt

Os bydd eich plentyn yn datblygu unrhyw un o'r symptomau hyn, hyd yn oed os na fyddant yn ddifrifol:

- Trefnwch brawf PCR ar ei gyfer drwy ffonio 01639 862757 neu 119 neu drwy'r porth ar-lein: <https://www.nhs.uk/ask-for-a-coronavirus-test>
- Rhowch wybod i ni ym Mryn Tawe ei fod yn teimlo'n anhwylyd gyda symptomau COVID-19 a'ch bod wedi gofyn am brawf
- Dylai eich plentyn barhau i hunanynysu
- Dylai pob aelod arall o'r cartref ynysu (hyd nes y ceir cyfeiriad pellach wrth aros am ganlyniad y prawf)
- Peidiwch ag ymweld â meddygfa, fferyllfa nac ysbyty ond os bydd angen cyngor meddygol arnoch ffoniwch y GIG ar 111 neu ffoniwch eich meddyg teulu. Os bydd argyfwng meddygol ffoniwch 999
- Os bydd angen cyngor meddygol arnoch ar gyfer symptomau COVID-19 neu am reswm arall, dywedwch wrth y gweithiwr gofal iechyd eich bod chi/eich perthynas yn gyswllt achos o COVID-19 a'ch bod yn hunanynysu.
- Dilynwch y cyngor a roddir pan fydd eich plentyn yn derbyn canlyniad ei brawf

Os nad oes gan eich plentyn unrhyw symptomau:

Os nad yw eich plentyn wedi profi'n bositif yn y 90 niwrnod diwethaf ac fe'i nodwyd ei fod yn gyswllt ag achos a gadarnhawyd, fe'i cynghorir i gymryd dau brawf PCR. Gallwch drefnu hyn drwy ffonio 01639 862757. Dylai'r profion PCR gael eu cynnal ar y diwrnod hunanynysu cyntaf (neu mor agos at ddechrau'r hunanynysu â phosib) a hefyd 2 ddiwrnod cyn diwedd y cyfnod hunanynysu (diwrnod 8). Y rheswm am hyn yw y gall symptomau barhau i ddatblygu o fewn y cyfnod hwn a gallwch heintio pobl eraill â'r feirws o hyd.

Os yw'r prawf yn bositif, bydd POD yn cysylltu â chi eto i sicrhau bod eich plentyn a'ch aelwyd yn cael cymorth i hunanynysu.

Ni ellir lleihau'r cyfnod o 10 niwrnod o hunan-ynysu drwy gael prawf. Os yw eich plentyn yn cael prawf ac mae'r prawf hwnnw'n negyddol, rhaid iddo barhau i hunanynysu tan ddiwedd ei gyfnod hunanynysu fel cyswllt ag achos a gadarnhawyd.

Mae rhagor o wybodaeth am Brofi, Olrhain, Diogelu ar gael yma <https://llyw.cymru/profi-olrhain-diogelu-coronafeirws>

Mae rhagor o wybodaeth am symptomau a hunanynysu ar gael yma <https://llyw.cymru/gwiriad-olrhain-cysylltiadau-dyddiol-symptomau-canllawiau-chymorth>



Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwryosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600

Ebost: SwyddfaBrynTawe5@hwbcymru.net
www.bryntawe.swansea.sch.uk



**BUDDSODD WYR
MEWN POBL**

Aur

Pennaeth : Mr Simon Davies



Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales



I gael gwybodaeth gyffredinol am COVID-19 <https://llyw.cymru/amddiffyn-eich-hun-ag-erail-rhag-y-coronafeirws>

Gall y gwiriwr symptomau COVID-19 ar-lein roi gwybod i chi os oes angen help meddygol arnoch a'ch cynghori ar yr hyn i'w wneud <https://llyw.cymru/os-oes-symptomau-gyda-chi-oes-angen-help-meddygol-arnoch-am-y-coronafeirws>

Os cawsoch eich hysbysu gan y GIG neu awdurdodau iechyd cyhoeddus a gofynnir i chi hunanynysu fel cyswllt â rhywun sydd wedi profi'n positif am Coronafeirws, mae eich hysbysiad yn brawf i'ch cyflogwr. Efallai y bydd gennych hawl hefyd i Dâl Salwch Statudol (SSP). I wirio'ch cymhwysedd, ewch i <https://www.gov.uk/statutory-sick-pay/eligibility>

Os ydych ar incwm isel neu'n wynebu caledi ariannol o ganlyniad i orfod hunanynysu, gallwch wneud cais am daliad a ariennir gan Lywodraeth Cymru drwy www.abertawe.gov.uk/Taliadauhunanynysu

Gellir dod o hyd i gyngor ac arweiniad i'ch helpu i ymdopi â hunanynysu yn www.abertawe.gov.uk/CymorthCoronafeirws

Bydd eich plentyn yn gallu ymuno a'i holl wersi gan athrawon Bryn Tawe ar lwyfan Teams am y cyfnod hunan ynysu. **A wnewch chi sicrhau bod eich plentyn yn mynychu ei wersi os gwelwch yn dda? Os oes unrhyw anhawster e.e. angen benthylg teclyn digidol neu gysylltiad gyda'r wê, cysylltwch gyda Mrs Nerys Vaughan (VaughanN9@hwbcymru.net) neu Mr Omar Bechar (BecharO@hwbcymru.net) i wneud trefniadau.** Cysylltwch gyda ni os oes unrhyw gwestiwn pellach.

Cysylltwch gyda ni os oes unrhyw gwestiwn pellach.

Yn ddiffuant,





Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwryosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600

Ebost: SwyddfaBrynTawe5@hwbcymru.net
www.bryntawe.swansea.sch.uk



BUDDSODDWYR
MEWN POBL | Aur



Pennaeth : Mr Simon Davies

